**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

Rhoddir rhybudd yn unol ag adran 44 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag oedd yn ofynnol, yn cynnig gwneud newidiadau rheoledig i:

- gynyddu nifer y disgyblion y mae Ysgol Heronsbridge yn darparu ar eu cyfer i 300; ac
- adleoli'r ysgol i Fferm yr Ynys, Pen-y-bont ar Ogwr, i ddod i rym o ddechrau tymor yr hydref 2025.

Dan y cynnig hwn, byddai Ysgol Heronsbridge, sy'n ysgol arbennig cyfrwng Saesneg sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig, anawsterau dysgu difrifol ac anawsterau dysgu dwys a lluosog yn oed cynradd, uwchradd ac ôl-16, sy'n cael ei chynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yn symud o'i lleoliad presennol yn Heol Ewenni, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 3HT i ysgol newydd ar dir yn Fferm yr Ynys, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 3LG. Byddai'r cynnig yn golygu y câi'r ddarpariaeth addysgol arbenigol yn Ysgol Heronsbridge ei chynyddu i gynnwys 300 o ddisgyblion. Cynigir gweithredu'r cynnig ar ddechrau tymor yr hydref 2025.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fydd yr awdurdod derbyn. Byddai'r holl dderbyniadau i Ysgol Heronsbridge yn cael eu gwneud drwy Banel yr Awdurdod Lleol gyda chynrychiolaeth o Ysgol Heronsbridge a Gwasanaeth Cymorth i Ddysgwyr y Cyngor. Dim ond os ydynt yn bodloni'r meini prawf cychwynnol y gellir ystyried lleoli disgyblion unigol.

Cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae'r adroddiad ymgynghori, sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgyngoreion, ymatebion y cynigydd a barn Estyn, ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr:

https://www.bridgend.gov.uk/cy/fy-nghyngor/cydraddoldeb-ac-ymgysylltu/ymgynghoriadau/ymgynghoriadau-cyfredol/ymgynghoriad-ysgol-heronsbridge/

Nifer y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Heronsbridge ar hyn o bryd yw 236. Nifer y lleoedd yn yr ysgol ar hyn o bryd yw 240. Unwaith y bydd y cynnig wedi cael ei weithredu, bydd 300 o leoedd ar gyfer disgyblion 3-19 oed.

Bydd y trefniadau ar gyfer cludiant ysgol yn unol â Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol/Coleg presennol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

https://www.bridgend.gov.uk/media/5632/home-to-school-or-college-transport-policy-v2.pdf

O fewn cyfnod o 28 diwrnod i'r dyddiad y cyhoeddwyd y cynnig, hynny yw erbyn 27 Gorffennaf 2022, caiff unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion.

Rhaid cyflwyno gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig i:
Lindsay Iorwerth Harvey (Mr)
Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd
D/o Uned Gymorth y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
CF31 4WB

neu eu hanfon drwy'r e-bost at: edsu@bridgend.gov.uk

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wneir (ac nas tynnir yn ôl yn ysgrifenedig) o fewn y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i ymateb iddynt, cyn diwedd saith diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod y penderfynwyd ar y cynnig.

Llofnodwyd:



Lindsay Iorwerth Harvey (Mr)
Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd
30 Mehefin 2022

**Nodyn Esboniadol**

Mae'r cynnig hwn yn ymwneud ag ehangu Ysgol Heronsbridge er mwyn cynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael. Mae'r cynnig yn golygu y byddai Ysgol Heronsbridge yn trosglwyddo i dir Fferm yr Ynys i ysgol arbennig newydd fwy o faint. Câi'r adeilad newydd ei ddylunio ar gyfer 300 o ddisgyblion 3-19 oed. Byddai'r ysgol newydd yn agor ar ddechrau tymor yr hydref 2025.

Mae'r ysgol yn cael ei dosbarthu fel ysgol arbennig a gynhelir gan yr awdurdod lleol ac mae ganddi ddarpariaeth breswyl yn ystod y tymor. Byddai darpariaeth breswyl sy'n gysylltiedig â'r ysgol hefyd yn cael ei darparu ar y safle newydd (hynny yw, dau dŷ pedair ystafell wely).

Mae'r Cyngor wedi cyflwyno'r cynnig hwn i adeiladu ysgol newydd yn lle Ysgol Heronsbridge er mwyn:

- Cynyddu nifer y lleoedd ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY);
- Lleihau nifer y dysgwyr sy'n cael eu hanfon y tu allan i'r sir (mae'r arfer hwn yn ddrud ac yn aml yn achosi amseroedd teithio sylweddol i ddisgyblion); a
- Darparu llety addas a digonol sy'n cwrdd ag anghenion ein dysgwyr mwyaf bregus.